

COLEG Y

CELFYDDYDAU / DYNIAETHAU / BUSNES

FFAIR YRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD

Dydd Mercher ■ 12.00 - 3.00pm

23.10.19

Neuadd Prichard-Jones, Prif Adeilad y Celfyddydau
Prifysgol Bangor



SESIYNAU

ARDAL ARDDANGOS, NEUADD PRICHARD-JONES

12.00pm - 3.00pm

1.15 - 1.45pm

Neuadd Mathias
yr Adeilad Cerddoriaeth

Cyfleoedd efo Labordy Arloesi Trafnidiaeth Cymru

Michael Davies

Michael Davies yw Rheolwr Mewnwelediad ac Arloesedd y tîm profiad cwsmer yn Transport for Wales Rail. Gan ddefnyddio'r technegau digidol diweddaraf, mae ei swydd yn cynnwys cyflwyno rhaglen gynhwysfawr, sy'n rhannu dealltwriaeth o'r farchnad a chwsmeriaid â'r busnes ehangach i gyfrannu at benderfyniadau strategol. Bydd hefyd yn goruchwyllo sefydlu a dilyniant llwyddiannus labordy Transport for Wales, labordy arloesi yng Nghasnewydd i fusnesau newydd sydd am helpu i ddatrys problemau cwsmeriaid. Mae gan Michael dros 10 mlynedd o brofiad o ddefnyddio dealltwriaeth i arwain projectau newydd sydd wedi eu cynllunio i wella profiad y cwsmer. Bydd Michael yn darparu gwybodaeth am raglen arloesi rheilffyrdd bwrpasol newydd Trafnidiaeth Cymru.

2.00 - 3.00pm

Neuadd Mathias
yr Adeilad Cerddoriaeth

Sut i fod yn Weithiwr Llawrydd

IPSE: Cymdeithas i Weithwyr Proffesiynol a'r Hunangyflogedig

Rebecca Willey - IPSE

Mae Rebecca yn cefnogi pobl hunangyflogedig i ddatblygu eu sgiliau ac mae'n gweithio gyda phrifysgolion ac ysgolion i gynnig cyngor ar yrfaoedd hunangyflogedig. Mae gan Rebecca bron i 10 mlynedd o brofiad ym maes addysg a dysgu a datblygu menter, ac mae hi wedi gweithio i sefydliadau ar draws y sector addysg uwch.

Yn y gweithdy, byddwch yn dysgu am weithio ar eich liwt eich hun, y pethau sydd angen i chi eu gwybod er mwyn sefydlu eich hun fel gweithiwr hunangyflogedig yn ogystal â thrafod manteision ac anfanteision y ffordd hon o weithio. Byddwch hefyd yn dysgu sut i hawlio eich aelodaeth myfyrwyr IPSE am ddim sy'n rhoi mynediad i chi i ddeunyddiau hyfforddi, pecynnau cymorth, canllawiau a gwahoddiadau i ddigwyddiadau

2.00 - 3.30pm

Ystafell Roberts
yr Adeilad Cerddoriaeth

Apwyntiadau CV - Gwiriad Cyflym Sesiynau galw-heibio

Tîm Gyrfaoedd

Dewch â chopi o'ch CV gyda chi er mwyn i un o'n cynghorwyr cyflogadwyedd fwrw golwg drosto. Defnyddiwch ein CVs enghreifftiol a'n canllawiau cyn eich apwyntiad i'ch helpu i greu'r CV mwyaf effeithiol posib:

my.bangor.ac.uk/content/employability-info/cv-resources.php.cy

2.00 - 2.30pm

3.00 - 3.30pm

Ystafell Parry-Williams
yr Adeilad Cerddoriaeth

Sgiliau cyfweld

Sian Peris Owen

Gwnewch wahaniaeth, mae eich cyfweliad yn bwysig!

2.00 - 3.30pm

Smith Brindle
yr Adeilad Cerdd

Rheoliadau fisa

Alan Edwards

Gall Swyddfa Gefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol y brifysgol roi cyngor am reoliadau fisa i fyfyrwyr sy'n dymuno gweithio yn ystod eu hastudiaethau. Bydd y sesiwn yn egluro'r rheolau a hefyd yn darparu gwybodaeth ar yr opsiynau fisa sydd ar gael ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau.

- » 3 Royal Welsh
- » Academi Wales - Welsh Government
- » Action on Hearing Loss
- » Aldi
- » Gwasanaethau Meddygol Wrth Gefn y Fyddin
- » Celfyddydau a Busnes Cymru
- » Syniadau Mawr Cymru
- » British Heart Foundation
- » Busnes Cymru
- » CAIS
- » Camp America
- » Campws Byw
- » CIM Sefydliad Siartredig Marchnata
- » Go Wales
- » Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd Gwasnaethau Masnachol
- » Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- » EF Education First
- » Enactus Bangor
- » Excell Supply Ltd
- » Cyngor Gwynedd
- » Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)
- » Hot House Music LLP

- » ICAEW
- » IPSE
- » Cyngor Sir Ynys Môn
- » Mandarin Consulting
- » Mantell Gwynedd
- » M-SParc - Parc Gwyddoniaeth Menai
- » Minesto UK LTD
- » Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu, Prifysgol Bangor
- » Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Plas Newydd
- » Academi Cyllid GIG Cymru
- » Tai Gogledd Cymru
- » Heddlu Gogledd Cymru
- » Opportunity China
- » Pagoda Projects
- » Pennant Flower
- » Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol
- » Supertemps Ltd
- » TFW Rail services
- » Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford
- » Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru
- » Travelteer
- » Swyddfa Archwilio Cymru



ALDI

Gyda gwreiddiau'n dyddio'n ôl i 1913, daeth Aldi i Brydain ym 1990, ac roedd cwsmeriaid yn rhyfeddu o weld enghraifft go iawn o siopa 'dim ffrils'. Mae'n ymwneud â chadw gorbenion i lawr fel bod y cwsmer yn elwa o ansawdd y cafwyd gwobrau amdano, a hynny am brisiau isel.

Mae Aldi yn gyflogwr sydd wedi ennill sawl gwobr, sy'n cynnig un o'r amgylcheddau gwaith gorau ym Mhrydain ac un o'r cyfraddau cyflog uchaf yn y sector archfarchnadoedd. Pleidleisiwyd Aldi fel y 3ydd Cyflogwr Graddedig Gorau ym Mhrydain gan y 'Times Top 100', ac mae'n cynnig un o'r rhaglenni hyfforddi mwyaf heriol ym maes manwerthu.



Gwasanaethau Meddygol Wrth Gefn y Fyddin

Ysbyty Maes 203 (Cymru)

Mae Ysbyty Maes 203 (Cymru) yn rhan o Wasanaethau Meddygol Wrth Gefn y Fyddin sy'n darparu cefnogaeth hanfodol i'r Fyddin Barhaol ac mae'n un o 10 Ysbyty Maes sy'n recriwtio'n rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig.

Rydym yn chwilio am weithwyr gofal iechyd proffesiynol o wahanol feysydd galwedigaethol ledled Cymru a fydd yn cael cyfle unigryw i ehangu eu sgiliau a'u profiad presennol. Bydd Gwasanaethau Meddygol Wrth Gefn y Fyddin yn helpu i ddatblygu sgiliau hyder, arweinyddiaeth a chyfathrebu. Mae'n yrfa amser hamdden neu yrfa rhan amser ochr yn ochr â gyrfa yn y GIG neu yrfa sifil arall.

Mae'r Gwasanaethau Meddygol Wrth Gefn y Fyddin hefyd yn darparu cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus trwy gynnig cyrsiau academiaidd, yn ogystal â hyfforddiant clinigol achrededig. Mae cyfleoedd hefyd i staff cefnogi gan gynnwys Gyrwyr, gweinyddwyr adnoddau dynol, cogyddion a chrefftwyr eraill.

Mae meini prawf dewis Gwasanaethau Meddygol Wrth Gefn y Fyddin yn ystyried gwerth cymwysterau proffesiynol, felly mae ystod eang o bobl yn gymwys i ymuno, yn achos y rhan fwyaf o broffesiynau, yr oedran mynediad uchaf yw 50. Gallwch hefyd ymuno os ydych yn astudio i fod yn feddyg, nyrs neu weithiwr iechyd proffesiynol cysylltiedig.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Y Staff-Ringyll James Bell
ar 01492 879624 neu e-bost 203HOSP-rhq-rsuso2@mod.uk



Celfyddydau a Busnes Cymru

Mae Celfyddydau a Busnes Cymru yn Elusen Gymreig ac rydym yn galluogi ac yn datblygu partneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr rhwng busnes a'r celfyddydau ledled Cymru. Mae ein Rhaglen Interniaeth Greadigol yn gosod graddedigion yn sefydliadau Celfyddydau Cymru fel hyfforddeion codi arian i'r celfyddydau mewn lleoliadau llawn-amser, â thâl am 10 mis.

Mae'r rhaglen interniaethau bellach yn ei 7fed flwyddyn a hyd yma, mae wedi cyflwyno 20 o swyddogion codi arian proffesiynol medrus yn llwyddiannus i weithlu'r celfyddydau ac ar hyn o bryd mae'n datblygu 5 yn rhagor o rai sydd newydd raddio, a hynny yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Dawns Rubicon a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Mae pob intern yn gweithio fel hyfforddai codi arian ac yn cael:

- » Cefnogaeth strwythuredig gan sefydliad y celfyddydau maent yn gweithio â nhw;
- » Mentora gan uwch swyddog codi arian ac arweinydd busnes;
- » Cyfarfodydd cefnogi Celfyddydau a Busnes Cymru a lleoedd am ddim ar ystod eang o gyrсияu hyfforddi wedi'u haddasu'n arbennig;
- » Cyfleoedd rhwydweithio allweddol a phrofiad ymarferol o reoli digwyddiadau.

Mae'r rhaglen interniaeth arloesol hon yn datblygu graddedigion ac yn rhoi cyfleoedd go iawn iddynt adeiladu gyrfaedd cynaliadwy yn y celfyddydau.

Am fanylion pellach am ein rhaglen 2020-21, e-bostiwch Goody.allsobrook@aandbcymru.org.uk neu ewch i www.aandbcymru.org.uk/creative-internships/



Syniadau Mawr Cymru

Mae Syniadau Mawr Cymru, rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, yn cynnig cymorth cyn-dechrau i bobl ifanc 16 i 25 oed, ar draws Cymru sydd â diddordeb bod yn hunangyflogedig neu ddechrau busnes.

Mae'r project yn rhaglen newid diwylliant a'i bwriad yw ysbrydoli a meithrin hyder a sgiliau entrepreneuriaidd pobl ifanc mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a'r tu allan i addysg.



Busnes Cymru

Beth yw Busnes Cymru?

Gwasanaeth yw Busnes Cymru sy'n rhoi cefnogaeth a chyngor diduedd ac annibynnol i bobl sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn datblygu busnesau yng Nghymru.

Rydym yn darparu gwybodaeth a gweithdai ac yn rhoi arweiniad ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb trwy ein canolfannau Busnes Cymru rhanbarthol. Credwn fod pob darpar entrepreneur a pherchennog busnes yn wynebu set unigryw o heriau. Mae ein hamrywiaeth eang o wasanaethau wedi'u teilwra i gefnogi eich nodau fel entrepreneur, os ydych yn cychwyn busnes neu'n ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o dyfu ac ehangu.

Bydd ein tîm mewnol o Gyngorwyr a Rheolwyr Cysylltiadau yn darparu cyngor busnes cyffredinol yn ogystal â chymorth arbenigol mewn meysydd megis Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd Adnoddau, Tendre, Masnach Ryngwladol a Mentora.

Trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau diagnosteg busnes a chreu cysylltiadau â rhwydwaith eang o sefydliadau sy'n cefnogi busnesau, bydd ein cyngorwyr yn gweithio'n agos â chi i ddatblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol i'ch helpu i dyfu eich busnes.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â Busnes Cymru heddiw.

Cefnogi busnesau yng Nghymru



Camp America

Cafodd Camp America ei sefydlu ym 1969. Ni yw'r cwmni mwyaf sy'n darparu staff i wersylloedd haf yn rhyngwladol gan recriwtio miloedd o bobl ifanc bob blwyddyn i weithio mewn cannoedd o wersylloedd haf anhygoel ledled UDA.

Rydyn ni'n rhoi cyfle i chi dreulio'ch haf yn gwneud rhywbeth gwahanol tra byddwch yn gwneud gwahaniaeth ac yn dysgu sgiliau newydd, yn gwneud ffrindiau ac atgofion newydd a fydd yn para am oes.



Campws Byw

Mae Campws Byw yn gymuned gymdeithasol a chynhwysol i holl breswylwyr Neuaddau'r Brifysgol, sydd wedi'i gynllunio i feithrin cymuned breswyl agos.

Mae'r rhaglen yn cael ei redeg gan Bennaeth Bywyd Preswyl, Cydlynnydd Bywyd Preswyl a'r Tîm Campws Byw sy'n cynorthwyo i sicrhau bod y rhaglen ddigwyddiadau'n rhedeg yn esmwyth yn ein pentrefi preswyl. Gallwn roi cymorth i fyfyrwyr wella eu CV a dysgu sgiliau gwerthfawr yn y gweithle, i gyd wrth astudio.



CIM Sefydliad Siartredig Marchnata

Mae'r Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM) wedi cefnogi, cynrychioli a datblygu marchnatwyr, timau, arweinwyr a'r proffesiwn ers dros 100 mlynedd.

Ni yw prif gorff marchnata proffesiynol y byd gyda thros 30,000 o aelodau ar draws y byd, gan gynnwys mwy na 3,000 o Farchnatwyr Siartredig. Rydym yn credu mai marchnata yw'r ffactor tyngedfennol wrth lywio perfformiad sefydliadol hirdymor. Ein cenhadaeth yw creu mantais farchnata er budd gweithwyr proffesiynol, busnes a chymdeithas.



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r cyflogwr mwyaf yn y Sir, rydym yn gyflogwr amrywiol sy'n annog datblygiad ein staff sydd, yn eu tro, yn darparu gwasanaethau o safon i gleientiaid - y cyhoedd.

Mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cyfrannu at y gymuned leol ac yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl wrth weithio mewn amgylchedd deinamig, teg a hyblyg. Rydym yn gweithio gydag eraill i wneud y gorau o leoliad Conwy yng nghanol gogledd Cymru ac i adfywio ein cymunedau - fel y gallant chwarae rhan weithredol wrth wneud Sir Conwy yn lle gwell fyth i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Er mwyn sicrhau bod ein gweithwyr yn gallu canolbwyntio ar gyflawni'r swydd, mae ein pecyn budd-daliadau wedi'i gynllunio i gael gwared ar lawer o'r pryderon o ddydd i ddydd y mae pobl yn eu hwynebu â bywyd modern. Gyda chymaint o wasanaethau i'w darparu, nid yw'n syndod bod cymaint o amrywiaeth o yrfaeodd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae cyfleoedd ym maes addysg, gofal cymdeithasol, peirianeg, gwasanaethau amgylcheddol, gweinyddiaeth a chyllid, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r un mor llwyddiannus â'r bobl y mae'n eu cyflogi.



Enactus Bangor

Ni yw Enactus, cymdeithas menter gymdeithasol sy'n anelu at roi sgiliau busnes ymarferol i fyfyrwyr.

Fel cymdeithas dan arweiniad myfyrwyr rydym yn datrys materion lleol yn ein cymuned, wrth gymhwyso model busnes iddynt fel y gallant fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Rydym yn creu projectau masnachol i gefnogi ein projectau cymdeithasol. Hefyd, rydym yn chwilio am fyfyrwyr dawnus sy'n gwirioneddol ymddiddori mewn busnes a chyda phenderfyniad i sicrhau ei lwyddiant. Rydym yn un o 65 tîm yn y Deyrnas Unedig, ac yn un o 36 gwlad sy'n cymryd rhan yn y cynllun ledled y byd. Rydym hefyd yn cael ein noddi gan gwmnïau corfforaethol mawr fel Amazon a BIC, sy'n cynnig cefnogaeth mewn mentoriaeth a chyllid.



Excell Supply

Mae Excell Supply yn arbenigwr addysg sy'n cyflenwi staff ledled gogledd Cymru, gogledd orllewin Lloegr, ac yn fwy diweddar, canolbarth Lloegr.

Mae gan ein tîm o reolwyr cyfrifon dros 50 mlynedd o brofiad mewn recriwtio ym maes addysg, a gwybodaeth heb ei hail am ysgolion yng ngogledd Cymru, Cilgwrri a gorllewin Swydd Gaer. Mae ein hymgyngorwyr addysg i gyd wedi mwynhau gyrfaeodd helaeth fel athrawon ac uwch arweinwyr mewn ysgolion. Maent bellach yn elfen hanfodol o'n hymrwymiad i ddarparu arbenigwyr recriwtio ac addysg i'n hymgeiswyr a'n cleientiaid. Mae Excell Supply hefyd yn rhan o'r Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru a Crown Commercial Services yn Lloegr ar gyfer gweithwyr dros dro ac athrawon llanw.



Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)

Gyda bron i 60,000 o weithwyr, mwy na £600 biliwn o refeniw a thua 45 miliwn o gwsmeriaid, mae Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn adran fawr o'r llywodraeth sydd â chyfrifoldebau difrifol.

Ni yw awdurdod treth, taliadau a thollau'r Deyrnas Gyfunol ac mae gennym bwrpas hanfodol: rydym yn casglu'r arian sy'n talu am wasanaethau cyhoeddus y Deyrnas Gyfunol, ac yn helpu teuluoedd ac unigolion drwy roi cefnogaeth ariannol benodol.



GO Wales

Hoffech chi gael help gyda dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol er mwyn datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd? Ydych chi'n 24 oed neu iau? Os felly, mae'r Cyngorwyr Project GO Wales yma i helpu.



Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd yw un o brif gyflogwyr y sir, ac rydym yn gweithio mewn meysydd amrywiol gyda'r pwrpas o wasanaethu pobl Gwynedd.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys addysgu ein plant, gofalu am ein pobl, glanhau ein strydoedd, edrych ar ôl ein llesiant a hybu ein busnesau lleol fel y gallant lwyddo. Ein uchelgais yw i gyflawni'r gorau drwy fod yn arloesol ac yn effeithiol yn ein gwaith i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Gwynedd.



ICAEW

Mae ICAEW yn sefydliad aelodaeth broffesiynol sy'n arwain y byd. Rydym yn darparu cymwysterau a datblygiad proffesiynol, yn rhannu gwybodaeth, mewnwelediad ac arbenigedd technegol ac yn amddiffyn ansawdd a chywirdeb y proffesiwn cyfrifeg a chyllid.

Mae ein safonau'n uchel, sy'n golygu bod galw mawr am Gyfrifwyr Siartredig ICAEW bob amser.

Fel myfyriwr israddedig, mae eich taith i ddod yn Gyfrifydd Siartredig ICAEW yn dechrau trwy ddod o hyd i gyfle i hyfforddi gydag un o'n 5,000 o gyflogwyr awdurdodedig. Rydym yn partneru gyda'ch cyflogwr i ddatblygu eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad wrth i chi symud ymlaen trwy'r cymhwyster ACA uchel ei barch.



IPSE

IPSE yw'r prif sefydliad yn y DU sy'n cynrychioli gweithwyr llawrydd a hunangyflogedig. Maent yn cynnig canllawiau, hyfforddiant a digwyddiadau i fyfyrwyr ynglŷn â gweithio ar eu liwt eu hunain a rhedeg busnes bach yn llwyddiannus.

Mae aelodaeth am ddim i fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Bangor, yn cynnwys tanysgrifiad i gylchgrawn ar-lein, digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio a mynediad at hyfforddiant ar-lein. Cofrestrwch am aelodaeth myfyriwr am ddim gan ddefnyddio'r cod **BANGOR1920**



Cyngor Sir Ynys Môn

Nod Cyngor Sir Ynys Môn yw bod yn gyngor proffesiynol, sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn eang ei orwelion o ran dull gweithredu, wedi ymrwmo i ddatblygu ein pobl a'n partneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion.

Fel cyflogwr, rydym yn cydnabod mai ein hasedau mwyaf gwerthfawr yw ein pobl. Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr y bydd pobl eisiau gweithio iddo trwy ddarparu ystod o fuddion oherwydd yn y pen draw, rydym yn cydnabod bod gweithwyr bodlon sydd wedi eu datblygu a'u paratoi'n dda yn rhoi'r gwasanaeth gorau i ddinasyddion Ynys Môn a'r rhai sy'n gweithio ac yn byw yn y sir.



Mandarin Consulting

Rydym yn galluogi myfyrwyr a graddedigion rhyngwladol i lansio a datblygu eu gyrfaeodd yn effeithiol.

Rydym yn eu helpu i fynd i mewn i gwmnïau byd-eang haen uchaf, llwyddo yn eu gyrfaeodd a dod yn un o'r goreuon ar draws y byd yn y dyfodol. Rydym wedi ein lleoli'n strategol ym Mhrydain, yr Unol Daleithiau a Tsieina, yn darparu cymorth hyfforddi ledled y byd ac yn falch o'n hanes llwyddiannus iawn o helpu miloedd o gleientiaid.



Mantell Gwynedd

Gwirfoddolwyr ifanc

Os ydych yn 14 – 25 oed a gyda diddordeb mewn gwirfoddoli, yna rydych yn y lle cywir!

Beth yw gwirfoddoli?

Mae gwirfoddoli yn golygu rhoi eich amser a'ch sgiliau i gefnogi unigolion, mudiadau, y gymuned ac achosion da. Gall hyn fod yn gwirfoddoli am un diwrnod yr wythnos mewn siop elusen i dreulio blwyddyn yn helpu plant mewn mannau difreintiedig yn y byd.

Dydy gwirfoddoli ddim yr un fath â phrofiad gwaith sef cyfnod penodol yn y gweithle. Yn hytrach, mae gwirfoddolwyr yn cefnogi sefydliadau megis helpu'r amgylchedd, tîm chwaraeon lleol neu helpu pobl eraill mewn ysbysai.

Pa fath o wirfoddoli hoffech ei wneud?

Mae nifer o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael ac yn y meysydd yma: Gwaith swyddfa, Yr Amgylchedd, Chwaraeon, Codi Arian, lechyd a Gofal Cymdeithasol, Manwerthu (siopau), Eich cymuned leol, Gwaith leuenctid, Treftadaeth, Gwirfoddoli Rhyngwladol.

Ennill sgiliau

Mae Cyflogwyr, Prifysgolion a Cholegau wrth eu bodd os oes gennych brofiadau gwirfoddoli! Mae gwirfoddoli yn dangos bod gennych sgiliau y gallwch eu trosglwyddo. Bydd cynnwys gwirfoddoli ar eich CV yn eich helpu i fod yn wahanol i weddill ymgeiswyr swyddi. Mae cyflogwyr, Prifysgolion a Cholegau bellach yn edrych am y profiadau yma ar eich CVs.

"Mae gwirfoddoli wedi fy helpu tuag at gael swydd a chyfweliadau swyddi. Mae gen i lot o brofiadau a sgiliau dwi wedi gallu rhoi ar fy CV."

Beth nesaf?

Am sgwrs i drafod eich anghenion gwirfoddoli, cysylltwch gydag: **Alan thomas** ar **01286 672626** **alan.thomas@mantellgwynedd.com** neu drwy Facebook **"Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd"**



Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu Prifysgol Bangor

Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu yma i roi mwy o fanylion i chi am astudio cwrs Ol-radd.



Minesto UK LTD

Cwmni sy'n datblygu technoleg ynni morol yw Minesto, a sefydlwyd yn 2007 fel is-gwmni i'r gwneuthurwr awyrofod o Sweden, Saab. Ers hynny, mae Minesto wedi llwyddo i ddatblygu technoleg unigryw o'r enw Deep Green.

Mae technoleg Deep Green yn cynhyrchu trydan o lifoedd llanwol a cheryntau morol araf ac mae'r egwyddor yn unigryw. Trwy anfon tyrbin bychan ar draws ardal fawr, ar gyflymder sydd sawl gwaith ynghynt na chyflymder gwirioneddol y cerrynt tanddwr, mae barcud tanfor Minesto yn llwyddo i drawsnewid ynni yn llawer gwell na thechnolegau eraill.



Cwmni Prifysgol Bangor
A Bangor University Company

M-SParc

Parc Gwyddoniaeth Menai
Cwmni Prifysgol Bangor

Mae gan bob un ohonom syniadau gwych. Ond faint sy'n dod yn realiti?

Mae troi syniadau cychwynnol yn fentrau llwyddiannus yn gofyn am rywbeth, a rhywle, ychwanegol. Rhywbeth i danio uchelgais, rhywbeth i fywiogi, rhywle i sbarduno dyfodol gwell. Mae angen gwybodaeth arbenigol, sgil, cefnogaeth, anogaeth a buddsoddiad ar fusnesau sydd wedi'u hadeiladu o syniadau gwych ac arloesol ym maes gwyddoniaeth i lwyddo. Mae M-SParc wedi'i sefydlu er mwyn darparu ystod o fanteision a buddion i fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Rydym yn deall yr angen i greu amgylchedd a fydd yn darparu nid yn unig gyfleoedd gwaith cynaliadwy, ond sy'n talu'n dda. Oherwydd natur y cwmnïau a'r busnesau ar y safle a'r ffocws ar wyddoniaeth sy'n seiliedig ar wybodaeth, bydd M-SParc yn cynnig swyddi lefel uchel ac o ansawdd uchel, gan ganiatáu i'n cleientiaid fanteisio ar y cyflenwad helaeth o weithwyr medrus ac addysgedig iawn yn y rhanbarth hwn.

Darganfyddwch fwy: www.m-sparc.com



National
Trust

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Elusen yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydlwyd ym 1895 gan dri pherson a oedd o'r farn bod treftadaeth a mannau agored yn bwysig ac roedd arnynt eisiau eu diogelu fel y gall pawb eu mwynhau. Dros 120 o flynyddoedd yn ddiweddarach mae popeth a wnawn yn parhau i fod yn seiliedig ar y gwerthoedd hynny.

Rydym yn gofalu am leoliadau arbennig ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, am byth, ac i bawb.

Rydym yn gofalu am yr arfordir, coedwigoedd, coedlannau, corsydd, traethau, tir amaeth, rhostiroedd, ynysoedd, olion archeolegol, gwarchodfeydd natur, pentrefi, tai hanesyddol, gerddi, melinau a thafarndai ac am un o'r casgliadau celf mwyaf yn y byd. Rydym yn eu hadfer, yn eu diogelu ac yn rhoi mynediad i bawb. Mae'r Ymddiriedolaeth wastad wedi credu bod cadwraeth â sicrhau mynediad i'r cyhoedd yn mynd law yn llaw.

Rydym yn croesawu un ac oll i ddarganfod:

- » 780 milltir o arfordir
- » Mwy na 248,000 hectar o dir
- » Dros 500 o barciau a gwarchodfeydd natur a thai, cestyll, henebion a gerddi hanesyddol.
- » Bron i filiwn o wrthrychau a gweithiau celf

Mae gennym sawl eiddo na fedrant ariannu gwaith cadwraeth parhaol ar eu pennau eu hunain. Mae'r gost o ofalu amdanynt yn uchel: yn 2015/16 fe wariom £107.1 miliwn ar broiectau cadwraeth. Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo yn ein meddiant yn anwahanadwy, sy'n golygu na all unrhyw un byth eu gwerthu na'u datblygu yn groes i'n dymuniad ni heb gydsyniad y senedd.

I ofalu am y lleoliadau sydd yn ein gofal rydym yn dibynnu ar gefnogaeth aelodau, cyfranwyr a gwirfoddolwyr, yn ogystal ag incwm gan gyrff rhoi grantiau a gweithgareddau masnachol megis manwerthu a siopau bwyd a diod.

Academi Gyllid



Finance Academy

Academi Cyllid GIG Cymru

Mae Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yn wasanaeth a gyllidir yn gyhoeddus sy'n darparu gofal iechyd i tua 3 miliwn o bobl.

Rydym yn chwilio am raddedigion angerddol, egniol a gonest sydd am ymrwymo i yrfa yn y maes rheoli ariannol, ac sy'n barod i fyw eu bywydau gan aros yn driw i'w gwerthoedd a gwneud y peth iawn, hyd yn oed pan mae hynny'n anodd.

Mae ein Cynllun Rheolaeth Ariannol i Raddedigion yn gynllun 3 blynedd sy'n agored i raddedigion o unrhyw ddisgyblaeth weithio yn y maes Cyllid ym Myrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru tra bônt yn astudio am gymhwyster cyfrifeg proffesiynol.



Tai Gogledd Cymru

Sefydlwyd Tai Gogledd Cymru yn 1974, ac erbyn heddiw mae'n fenter gymdeithasol lwyddiannus sy'n darparu cartrefi a chyflenwi gwasanaethau i dros 2,600 o gartrefi ar draws Gogledd Cymru.

Rydym yn cyflogi hyd at 180 o bobl ac rydym yn falch o arddangos ein hachrediad Arian Buddsoddwyr mewn Pobl.



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Heddllu Gogledd Cymru

Mae Heddllu Gogledd Cymru yn gwasanaethu ardal ogleddol Cymru – o Ynys Môn yn y gorllewin i Wrecsam yn y dwyrain, mor bell i'r de â Machynlleth ac Aberdyfi.

Mae plismona ardal dddearyddol mor fawr yn golygu nad oes dau ddiwrnod yr un fath: mae ein poblogaeth yn gymysgedd amrywiol o gymunedau trefol, gwledig ac arfordirol, gyda gwahanol anghenion ac yn wynebu gwahanol broblemau. Mae porthladdoedd, gorsafoedd pŵer a phrifysgolion hefyd yn dod â'u set unigryw eu hunain o heriau, ond mae Tim HGC yn barod i'w hwynebu i gyd. P'un a ydym yn mynd i'r afael â throseddau trefnedig, yn cadw ein ffyrdd yn ddiogel, neu'n amddiffyn aelodau mwyaf agored i niwed y gymuned, rydym yma i wneud gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel ym Mhrydain.



opportunitychina

Opportunity China

Mae Opportunity China yn borth i gyfleoedd addysgu cyffrous a chyfoethog yn Tsieina, ar gyfer ystod o weithwyr proffesiynol addysgu profiadol, yn ogystal â rhai sydd newydd raddio.

Rydym yn ymfalchïo mewn cynnig gwasanaeth proffesiynol a phersonol i bob ymgeisydd, o'u cais cychwynnol hyd at ddechrau eu cyfle delfrydol yn Tsieina.

Mae ein rhaglen graddedigion flynyddol, Teach China, yn recriwtio graddedigion gorau'r gwledydd Saesneg eu hiaith, i swyddi sy'n talu'n dda mewn dinasoedd ledled Tsieina.

Dim ond gydag ysgolion a sefydliadau addysg sy'n cwrdd â'n safonau uchel y mae Opportunity China yn gweithio. Rydym yn ceisio datblygu dinasyddion byd-eang trwy gynlluniau cyfnewid diwylliannol sy'n gweithredu fel catalydd ar gyfer cyfoethogi diwylliannol ac economaidd.



Pennant Flower

Syrfewyr Siartredig / Ymgynghorwyr Eiddo

“Troi Problemau Eiddo yn Elw”.

Ledled Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr mae Pennant Flower yn darparu ystod o wasanaethau proffesiynol i fusnesau a pherchnogion sawl gwahanol math o eiddo gan gynnwys eiddo manwerthu, swyddfeydd ac eiddo diwydiannol a hamdden. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys ymgynghoriaeth prydles, datrys anghydfod, caffael, gwaredu a rheoli portffolios.

Mae'r cwmni hefyd yn cynghori tirfeddianwyr, perchnogion hawliau morol, datblygwyr, gweithredwyr a defnyddwyr marinas, perchnogion eiddo wrth y glannau, rheolwyr harbwr, gweithredwyr ynni alltraeth a gwasanaethau cysylltiedig.

Paul W Flower FRICS yw Pennaeth y cwmni ac mae'n aelod o Banel Cyflafareddu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig sy'n datrys anghydfodau eiddo naill ai ar gais llywydd y sefydliad neu un o'r partïon mewn anghydfod.

Swyddfeydd

- 5th Floor, Horton House, Exchange Flags, Liverpool L2 3PF
Ffôn: 0151 558 0421
- Wincham Wharf, Lostock Gralam, Northwich, Cheshire CW9 7NT
Ffôn: 01606 610421
- M-SParc, Parc Gwyddoniaeth Menai, Ynys Môn LL60 6AG
Ffôn: 01248 858021



Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol Prifysgol Bangor

Yn addysgu arweinwyr newid

Cyrsiau radd ac ôl radd mewn:

- » Dylunio Cynnyrch
- » Addysg Athrawon
- » Astudiaethau Plentynod



Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford

Mae Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford (SaTH) yn cyflogi bron i 6,000 o bobl mewn cannoedd o arbenigeddau.

Mae gennym ddiddordeb mewn siarad â myfyrwyr ar draws pob disgyblaeth gan gynnwys cyllid, busnes, nyrsio, radiograffeg, ffisiotherapi, ac unrhyw un arall a hoffai wybod mwy am weithio yn y GIG.



Supertemps

Yr asiantaeth recriwtio gyntaf ar gyfer swyddi yng ngogledd Cymru

Rydym wedi bod yn dod o hyd i swyddi i bobl ac yn llenwi swyddi gweigion i gyflogwyr er 1980. Mae hynny'n ein gwneud yr asiantaeth recriwtio annibynnol sydd wedi'i sefydlu hiraf yng ngogledd Cymru. Yn yr amser hwnnw rydym wedi meithrin cysylltiadau dibynadwy gydag ystod enfawr o gyflogwyr, ac wedi adeiladu'r enw da gorau am helpu pobl i ddod o hyd i waith.

Teulu sy'n berchen ar Supertemps, rydym ni'n hollol annibynnol ac yn falch ohono. Nid ydym am fod fel asiantaethau recriwtio eraill. Rydyn ni'n well. Mae ein holl staff yn derbyn hyfforddiant cyfoes ac mae ein cymwysterau yn y diwydiant yn arwydd o ansawdd ac ymrwymiad i wasanaethu'r gorau y gallwn. Rydyn ni'n rhoi'r cyfan sydd gennym i gefnogi'r cymunedau y mae'r gweithwyr a'r cyflogwyr yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Ar gyfer rhai sy'n chwilio am waith a chyflogwyr, mae Supertemps yn darganfod ac yn llenwi swyddi yn y sector cyhoeddus a phreifat gan gynnwys:

- » Swyddi masnachol, gan gynnwys cymorth swyddfa, adnoddau dynol, gwasanaeth cwsmeriaid, cyllid a chyfrifyddu, gwerthu a marchnata a staff dwyieithog ar draws pob swydd
- » Swyddi gofal cymdeithasol, tai ac iechyd gan gynnwys gwaith cymdeithasol, gwaith cefnogi a swyddi gyda phrojectau
- » Swyddi diwydiannol, megis gyrru a logisteg, ailgylchu a rheoli gwastraff, gweithgynhyrchu, adeiladu, glanhau domestig a masnachol a chrefftau medrus
- » Swyddi lletygarwch, gan gynnwys cogyddion, staff blaen tŷ, bar a gweini a phorthorion cegin
- » Swyddi adeiladu, gan gynnwys llafur a chrefftau, proffesiynol a thechnegol, mecanyddol a thrydanol.

Mae ein chwaer frand, S2 Recruitment, yn canolbwyntio ar:

- » Swyddi TG a gweithredol (cyflogau £30,000 + a phob lefel o TG), gan gynnwys peirianeg, penodiadau dros dro ar gyfer rheoli cyllid, projectau neu weithrediadau, uwch reolwyr, penodiadau gweithredol a lefel bwrdd a TG



Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru

Mae Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu Gwasanaeth Rheilffordd Cymru a'r Gororau. Ers mis Hydref 2018, mae gwasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau wedi cael ei weithredu gan Keolis Amey Operations (yn masnachu fel Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru).

Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i greu rhwydwaith trafnidiaeth y mae Cymru'n falch ohono. Mae gennym gontract 15 mlynedd ac rydym yn gweithio'n galed i ddod y rheilffordd orau yn y DU - dros y 15 mlynedd nesaf byddwn yn trawsnewid y rhwydwaith ledled Cymru a'r Gororau, gyda gwasanaethau a cherbydau newydd, atebion arloesol, a rhaglen enfawr o fuddsoddi mewn gorsafoedd. Ni fu erioed amser mwy cyffrous i ymuno â ni. Rydym yn darparu rhwydwaith rheilffyrdd y dyfodol, i Gymru a'r Gororau. Rhwydwaith sy'n gosod rheilffyrdd yn sail hollbwysig i ddiwylliant Cymru, lles cymunedol a gwell iechyd economaidd i'r genedl. Rydym yn darparu rhwydwaith rheilffyrdd y dyfodol, i Gymru a'r Gororau. Rhwydwaith sy'n gosod rheilffyrdd yn sail hollbwysig i ddiwylliant Cymru, lles cymunedol a gwell iechyd economaidd i'r genedl. Byddwn yn darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel y mae pobl Cymru'n falch ohono. Mae ein gweledigaeth yn uchelgeisiol. Mae'r newid a gyflwynwn yn drawsnewidiol. Mae hon yn daith y gallwn ei chyflawni gyda phobl eithriadol yn unig.

Prentisiaid a Graddedigion

Tyfu talent yw ein peth ni! Rydym yn angerddol am ddatblygu sêr y dyfodol i helpu i yrru ein busnes yn ei flaen, ac yn gyfnawid, rydym yn cynnig gyrfaedd cyffrous a gwerth chweil.

P'un ai hon yw'ch swydd gyntaf un, neu os ydych chi newydd raddio o'r Brifysgol, efallai y byddwn yn gallu gyrru'ch gyrfa i'r cyfeiriad cywir. Gyda rhaglenni datblygu amrywiol, sy'n eich galluogi i weithio, dysgu ac ennill, fe allech chi gael eich hun mewn oferôls oren yn ein tîm peirianeg, yn eich gwisg busnes mwyaf smart yn ein pencadlys, neu mewn iwnniform yn un o'n gorsafoedd. Felly, os ydych chi'n ystyried eich hun yn uchelgeisiol, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu, beth am ymuno â ni?

www.comeaboard.co.uk - Mae llawer mwy i ni na rhedeg gwasanaeth trên yn unig, ac yma, gallwch chi ddod o hyd i'r cyfleoedd gyrfa rydyn ni'n eu cynnig os ydych chi am ymuno â ni ar y siwrnai hon!



Travelteer

Chwilio am leoliad rhyngwladol? Peidiwch â chwilio ymhellach! Mae Travelteer yn arbenigo mewn darparu lleoliadau o safon i fyfyrwyr prifysgol trwy ein rhaglenni gwirfoddoli moesegol yn Sri Lanka a Nepal.

Dyluniwyd ein rhaglenni i fod yn gysylltiedig â chwrs, fel eu bod yn berffaith wrth roi'r profiad iawn i chi, p'un a yw'n ofyniad lleoliad neu i adeiladu'ch CV.

Rydym yn cynnig lleoliadau o bythefnos i 6 mis, ac maent yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn.

Ein rhaglenni yn Sri Lanka a Nepal: Datblygu Saesneg:

- » Datblygu Chwaraeon
- » Tecstilau a Dylunio
- » Cadwraeth y Môr a Bywyd Gwyllt
- » Datblygu cymunedol
- » Dewis Meddygol a Nyrsio

Darganfyddwch fwy a holwch heddiw yn www.travelteer.co.uk



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Swyddfa Archwilio Cymru

Oes gennych chi ddiddordeb mewn sut mae arian yn cael ei wario?

Ydych chi eisiau helpu i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus a chael gyrfa sydd wir yn cyfrif?

Ydych chi eisiau gweithio mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi sut mae pobl yn ymddwyn ac yn trin ei gilydd?

Os felly, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn lle perffaith i chi, gan gynnig cyfle unigryw i chi wneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru.

Rydym yn chwilio am raddedigion sydd â record academaidd drawiadol gydag o leiaf gradd ail ddosbarth mewn unrhyw ddisgyblaeth i ymuno â'n tîm fel hyfforddai graddedig.

Os dewiswch ymuno â ni, cewch gefnogaeth lawn i gyflawni cymhwyster cyfrifeg Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac sy'n uchel ei barch. Gan weithio mewn timau ledled Swyddfa Archwilio Cymru, cewch gyfleoedd i ennill gwybodaeth a phrofiad mewn gwahanol agweddau ar ein gwaith archwilio ariannol a pherfformiad. Os oes gennych ddiddordeb yn y sector cyhoeddus, eich bod yn naturiol chwilfrydig ac yn chwaraewr tîm sydd â sgiliau rhyngbersonol rhagorol, efallai mai hon yw'r rhaglen.

ARDAL ARDDANGOS NEUADD PRICHARD-JONES
EXHIBITION AREA PRICHARD-JONES HALL

